

Yn Dewis Pynciau?

Gallwn ni helpu!

Arlwyo? Hanes?
Dylunio a
Thechnoleg?
Ffrangeg?

At ba fath o
swyddi allai'r
pynciau hyn
arwain yn y
dyfodol?



gyrfacymru.llyw.cymru



post@gyrfacymru.llyw.cymru



0800 028 48 44



Sgwrs ar-lein



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Heb wir feddwl am swydd eto?

Rwy'n hoff iawn o
Ddaearyddiaeth; pa
swyddi sy'n gysylltiedig â
Daearyddiaeth?

Pa swydd allai fod yn
addas i mi?

Rwy'n dda am ddatrys problemau; pa
swyddi allwn i eu gwneud?

Rhowch gynnig ar ein Cwis Buzz NEWYDD

Gallwch ddarganfod...

- Eich cryfderau a'r hyn sydd yn eich gyrru chi
- Swyddi sy'n gysylltiedig â'ch personoliaeth
- Pa enwogion sy'n rhannu eich math o bersonoliaeth

Mae yna 16 canlyniad - pob un yn gysylltiedig ag anifeiliaid. Ydych chi'n arth coala, yn llew neu efallai yn eryr hyd yn oed? Darganfyddwch pa anifail sy'n cysylltu â'ch math o bersonoliaeth.



Evch i **gyrfacymru.llyw.cymru** i roi cynnig ar ein



Cwis Buzz trwy ddilyn yr eiconau o'r hafan.

Rhowch gynnig ar ein Cwis Paru Swyddi

Darganfyddwch...

- Pynciau a'r swyddi y gallent arwain atynt
- Rolau swyddi mewn gwahanol ddiwydiannau
- Teitlau gwahanol swyddi a dysgu mwy am y cyflogau, y cymwysterau a'r sgiliau sydd eu hangen

Ewch i **gyrfacymru.llyw.cymru** roi cynnig ar ein  **Cwis Paru Swyddi** trwy ddilyn yr eiconau o'r hafan.



Swyddi'r Dyfodol

Chwiliwch am wybodaeth am gannoedd o wahanol yrfaedd i ddarganfod mwy am yr hyn y gallech chi ei ennill, pa gymwysterau fydd eu hangen a'r sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol swyddi.

Ewch i **gyrfacymru.llyw.cymru** a chadwch lygad am yr eicon  **gwybodaeth am swyddi** ar ein hafan



A oes gennych chi ddiddordeb mewn swydd benodol?

Beth mae barista
yn ei wneud?

Beth mae technegydd
gwasanaethau adeiladu yn
ei wneud?

Sut ydw i'n dod
yn beilot drôn?

Oes angen gwyddoni-
daeth arnaf er mwyn
bod yn athro ysgol
gynradd?



Defnyddiwch Chwiliad Gyrfa i ddarganfod:

- Y cymwysterau sydd eu hangen – oes angen pynciau penodol arnaf? A fydd angen gradd arnaf?
- Sut mae'r tâl – faint allwn i ei ennill? A fydd fy nghyflog yn cynyddu wrth i mi gael mwy o brofiad?

Ewch i gyrfacymru.llyw.cymru ac edrychwch am
y eicon  **Chwiliad Gyrfa** ar ein hafan.

Pa bynciau ddylwn i eu dewis?

Mae dewis eich pynciau yn amser cyffrous! Efallai ei fod yn ymddangos yn frawychus ond, mae penderfynu pa bynciau i'w cymryd yn golygu y gallwch chi ddechrau cymryd rheolaeth o'ch dyfodol.

Gofynnwch i'ch hunan:

- Pa bynciau ydw i'n hoffi?
- Pa bynciau ydw i'n dda ddylwn?
- Pa bynciau sydd angen arnaf ar gyfer fy syniadau swydd?

Os ydych dal yn ansicr, edrychwch ar ein tudalennau cyngor ar:

www.careerswales.gov.wales/cy/opsiynau-pwnc-blwyddyn-9

neu siaradwch â'ch cynghorydd gyrfa.

Cofiwch, nid yw eich rhyw yn cyfyngu ar eich dewis o bynciau na'r swyddi y gallwch eu gwneud.

Sut ydyn ni'n darparu ein gwasanaethau?

Byddwn yn defnyddio ystod o ddulliau gan gynnwys yn bersonol, dros y ffôn, trwy e-bost a thrwy neges destun.

Nid oes yn rhaid i chi ymgysylltu â ni ac os mai dyna'r dewis, rhowch wybod i ni trwy naill ai:

Ysgrifennu atom yn Gyrfa Cymru, 53 Charles Street, Caerdydd, CF10 2G

Ffonio ni ar on 0800 028 4844

Anfon e-bost at dpo@careerswales.com

Rhoi gwybod i'ch **cynghorydd gyrfa**.

Pa fanylion sydd gennym a pham?

Er mwyn i ni ddarparu ein gwasanaethau, mae'n angenrheidiol i ni gadw data personol am y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Er mwyn eich helpu i gynllunio'ch dyfodol, byddwn yn cadw gwybodaeth a allai gynnwys eich enw, cyfeiriad cartref, pynciau rydych chi'n eu hastudio, canlyniadau arholiadau, profiad gwaith, unrhyw syniadau sydd gennych chi am eich addysg neu'ch gyrfa yn y dyfodol, manylion unrhyw anghenion cymorth sydd gennych chi a manylion cyswllt eich rhiant / gwarcheidwad.

Efallai y byddwn yn rhannu / derbyn data personol amdanoch chi gyda / gan eich ysgol, colegau, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau eraill a allai eich helpu gyda'ch cynlluniau gyrfa yn y dyfodol.

Rydym yn trin data personol gyda pharch. Gallwch ddod o hyd i'n hysbysiad preifatrwydd ar-lein yn

gyrfacymru.llyw.cymru

Os hoffech gael copi print o'n hysbysiad preifatrwydd, ffoniwch ni ar **0800 028 4844**.

Rhieni / gwarcheidwaid

Rhieni / gwarcheidwaid - mae canllaw gyda gwybodaeth a all eich helpu i gefnogi'ch plentyn gyda'r penderfyniadau hyn ar gael ar:

www.careerswales.gov.wales/cy/opsiynau-pwnc-blwyddyn-9